

Cymeradwyo technoleg Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU

– Cam ymlaen pwysig ar gyfer gorsaf Wylfa Newydd Horizon

Mae Horizon Nuclear Power yn croesawu'r cyhoeddiad heddiw bod Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio yn y DU, sy'n paratoi'r ffordd i'r dechnoleg gael ei hadeiladu yn natblygiadau arfaethedig Horizon ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn.

Bydd y prosiectau hyn yn creu degau o filoedd o swyddi ac yn y pen draw byddant yn darparu mwy na 5.4GW o drydan glân, diogel a fforddiadwy – digon i bweru tua 10 miliwn o gartrefi.

Mae'r gymeradwyaeth hon yn nodi cwblhad yr Asesiad Dyluniad Generig, asesiad trylwyr a gynhelir gan reoleiddwyr y DU. Cyrhaeddwyd y garreg filltir hon ar amser, diolch i ansawdd profedig yr Adweithydd ac i'r gwaith a wnaed ar y cyd gan dîm Hitachi-GE, Horizon a GE-Hitachi.

Dyma gyflawniad arall i'r Adweithydd Dŵr Berw Uwch, y mae pedwar ohonynt wedi'u hadeiladu a'u gweithredu'n llwyddiannus yn y gorffennol - ar amser ac o fewn y gyllideb - ac mae'r dyluniad bellach wedi cael ei gymeradwyo o dan bedair trefn reoleiddio wahanol ledled y byd.

Dyweddodd Duncan Hawthorne, Prif Swyddog Gweithredol Horizon: “Mae hon yn garreg filltir enfawr i Horizon ac yn gam pwysig ymlaen i ni wrth sicrhau pŵer niwclear newydd sydd ei angen yn fawr yn y DU. Gall ynni niwclear gyflenwi cryn dipyn o ynni carbon isel sefydlog, sy'n ei wneud yn rhan hollbwysig o gymysgedd trydan y wlad a phan fydd yn weithredol, bydd Wylfa Newydd a'n safle yn Oldbury yn cyflenwi pŵer dibynadwy, glân i'r DU am ddegawdau i ddod.

“Mae cryfder y tîm cyfunol a natur brofedig y dechnoleg, wedi sicrhau bod proses yr Asesiad Dyluniad Generig wedi'i chwblhau ar amser.”

Dyweddodd Tadashi Kume, Llywydd a Chyfarwyddwr Cynrychioliadol Hitachi-GE: “Mae cyflawni safonau uchel iawn rheoleiddwyr y DU a chwblhau Asesiad Dyluniad Generig o fewn ein targed o bum mlynedd yn profi ymhellach gryfder y prosiect hwn, a gallu'r tîm i'w gyflawni. Mae'r asesiad hwn yn drylwyr a thrwyadl, ac mae derbyn cymeradwyaeth ar amser yn glod i ddyluniad rhagorol Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU.

“Ers 2012, rydym wedi bod yn destun proses asesu a chraffu fanwl iawn gan y rheoleiddwyr. Drwy gydol y broses hon, mae eu harbenigedd a'u proffesiynoldeb wedi bod heb eu hail. Rydym yn edrych ymlaen yn awr i gynorthwyo Horizon i sicrhau trwydded safle penodol ar gyfer Wylfa Newydd.”

Mae cymeradwyo Aseiad Dyluniad Generig Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU yn ychwanegol at y cynnydd cyson sy'n cael ei wneud gan Horizon mewn perthynas â phrosiect Wylfa Newydd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r Cais am Drwydded Safle, a chwblhau'r trydydd ymgynghoriad cyhoeddus yn llwyddiannus.

Mae'r newyddion hefyd wedi cael ei groesawu'n ehangach:

- **Dywedodd Albert Owen AS, Aelod Seneddol dros Ynys Môn:** *"Rydw i'n croesawu'r newyddion heddiw bod yr Aseiad Dyluniad Generig ar gyfer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU wedi cael ei gwblhau. Mae'r pedair blynedd o waith caled ac ymroddiad wedi dwyn ffrwyth. Dyma garreg filltir bwysig ac rydw i'n falch bod Adweithydd y DU wedi cyrraedd y safonau uchel iawn o ddiogelwch sy'n ofynnol gan reoleiddwyr y DU. Rydw i'n edrych ymlaen at ymgysylltu'n barhaus â thîm prosiect Wylfa Newydd a'i ddatblygiad yn y dyfodol".*
- **Dywedodd Dennis Evans, Cadeirydd Grŵp Cyswllt annibynnol Prosiect Wylfa Newydd:** *"Rydw i'n falch iawn o nodi'r garreg filltir hon yn natblygiad y Prosiect. Mae'r ffaith bod yr aseiad trylwyr o Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU a gyflawnwyd dros bedair blynedd wedi bodloni Rheoleiddwyr y DU, o fewn yr amserlen a bennwyd gan Hitachi-GE, yn glodwiw ac yn ganmoladwy. Rydw i'n edrych ymlaen at weld y cynigion manwl terfynol ar gyfer datblygiad Wylfa Newydd maes o law, a hoffwn longyfarch y tîm am gwblhau'r Aseiad Dyluniad Generig".*
- **Dywedodd Guto Bebb, Gweinidog yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig:** *"Mae gan niwclear newydd rôl ganolog i'w chwarae yn ein dyfodol ynni, gan ddarparu pŵer diogel, carbon isel ac yn cefnogi swyddi a thwf economaidd. Mae helpu i roi Cymru ar flaen y gad ym maes technolegau'r dyfodol a phrosiectau twf glân yn amcanion sylfaenol ein Strategaeth Ddiwydiannol. Er hynny, mae'n rhaid i ni fod yn gwbl sicr y bydd unrhyw adweithydd niwclear a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y wlad hon yn bodloni ein safonau diogelwch llym. Mae cyhoeddiad heddiw yn gam pwysig ymlaen i brosiect Pŵer Niwclear Horizon yn Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Bydd yn dod â miloedd o swyddi i'r ardal leol a phŵer niwclear newydd i filiynau o gartrefi ledled y Deyrnas Unedig."*
- **Dywedodd Ian Price, Cyfarwyddwr CBI Cymru:** *"Bydd Wylfa Newydd yn dod â manteision busnes enfawr i Gymru gyfan ac rydym felly'n croesawu cyhoeddiad heddiw'n fawr. Mae busnesau ar Ynys Môn ac ar draws Gogledd Cymru eisoes yn gweithio'n galed ar y prosiect ac mae newyddion heddiw yn gam mawr tuag at hyd yn oed ragor o gyfleoedd i gwmnïau yng Nghymru."*
- **Dywedodd Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru:** *"Rydw i wrth fy modd bod technoleg Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU Hitachi-GE wedi llwyddo heddiw i gwblhau Cam 4 o broses Aseiad Dyluniad Generig y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear. Mae cwblhau'r cam olaf hwn o fewn yr amserlen wreiddiol yn dipyn o gamp a hoffwn longyfarch pawb dan sylw am gyflawni hyn. Edrychwn ymlaen at weld prosiect Wylfa Newydd yn cymryd camau pellach yn 2018".*
- **Dywedodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn:** *"Mae hon yn garreg filltir allweddol ar gyfer Hitachi-GE, Pŵer Niwclear Horizon, a cham pwysig arall ymlaen yn y daith i wireddu'r Wylfa Newydd. Mae'r Swyddfa*

Rheoli dros Niwclear (ONR) yn adnabyddus fel y rheoleiddiwr mwyaf caeth yn y byd, ac mae sêl bendith ganddynt yn dilyn yr Asesiad Dyluniad Generig cynhwysfawr yn rhoi hyder i ni yn niogelwch y dechnoleg sydd wedi ei darperir gan Hitachi-GE. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i drafod gyda Pŵer Niwclear Horizon. Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y prosiect yma'n elwa Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru'n ehangach."

- **Dywedodd Rebecca Long Bailey AS , Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Fusnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol:** *"Rwyf yn croesawu'r cyhoeddiad gan Bŵer Niwclear Horizon eu bod wedi cwblhau'r broses GDA a'u bod gam yn nes at gyflawni'r prosiect hwn. Mae ynni niwclear yn rhan bwysig o strategaeth ynni gytbwys i ddatgarboneiddio'r economi. Bydd Wylfa Newydd yn rhan allweddol o'r strategaeth ynni hon gan greu miloedd o swyddi crefftus â thâl da mewn rhannau o'r wlad sydd wir angen swyddi o'r fath."*
- **Dywedodd y Gweinidog Ynni, Richard Harrington:** *"Mae cyhoeddiad heddiw yn garreg filltir bwysig ar gyfer datblygu safleodd niwclear arloesol newydd yn y DU. Fel y nodwyd yn ein Strategaeth Ddiwydiannol, rydyn ni'n rhoi'r DU ar flaen y gad mewn technolegau yn y dyfodol sydd â'r potensial i greu gwerth a swyddi ledled y DU. Mae technoleg niwclear Pŵer Niwclear Horizon yn un enghraifft o hyn."*
- **Dywedodd Tom Greatrex, Prif Weithredwr, Cymdeithas y Diwydiant Niwclear(NIA):** *"Mae cymeradwyo dyluniad ABWR y DU yn newyddion da i raglen niwclear newydd y DU. Dyma benllanw proses drwyadl, gadarn a manwl gan reoleiddwyr annibynnol y DU, sy'n cael ei chydabod yn broses o'r radd flaenaf. Gyda dau draean o orsafoedd pŵer y DU yn cau rhwng 2010 a 2030, dyma gam pwysig ar gyfer darparu pŵer niwclear carbon isel diogel a dibynadwy ar gyfer y dyfodol, i gartrefi, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r sector niwclear eisoes yn gyfrifol am £400 miliwn o gynnyrch domestig gros Cymru. Bydd prosiectau'r dyfodol yn adeiladu ar hyn, gan greu swyddi hyfedr iawn a darparu mwy o fudd economaidd i gymunedau lle bydd yn cael ei adeiladu."*

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Horizon: Richard Foxhall, richard.foxhall@horizonnuclearpower.com, 07807 769265

Hitachi-GE: Lowri Joyce, lowri.joyce@hitachi-hne.com, 07464 980601

Nodiadau i olygyddion:

- Bu Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU yn destun Asesiad Dyluniad Generig pedwar cam trylwyr a gynhaliwyd gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR), Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn craffu ar ei addasrwydd i'w ddefnyddio yn y DU. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear wedi cyflwyno Cadarnhad Derbyn Dyluniad (DAC) i Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflwyno Datganiad o Dderbynioldeb Dyluniad (SoDA).
- Mae'r Asesiad Dyluniad Generig yn broses a ddefnyddir gan reoleiddwyr

niwclear y DU i asesu addasrwydd posibl dyluniad i'w ddatblygu mewn lleoliad amhenodol yn y DU, gan archwilio diogelwch, gwarchodaeth amgylcheddol a diogeledd. Mae cyflwyno Cadarnhad Derbyn Dyluniad a Datganiad o Dderbynioldeb Dyluniad yn nodi cwblhad llwyddiannus y broses hon.

- Dechreuodd yr Asesiad Dyluniad Generig o Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU ym mis Ebrill 2013. Roedd y broses yn cynnwys asesiadau a chyflwyniadau manwl o 20 o ffrydiau gwaith pwnc, sy'n cynnwys tîm brig o fwy na 300 o Hitachi-GE a Horizon.
- Mae Horizon wedi gweithio'n agos gyda'i gyflenwr adweithyddion, Hitachi-GE drwy'r broses Asesiad Dyluniad Generig, a'r cwmni hwn fydd yn gwneud cais am drwydded safle ar gyfer y datblygiadau arfaethedig. Nid yw'r Asesiad ynddo'i hun yn rhoi caniatâd i adeiladu, ac mae Horizon yn dechrau yn awr ar broses o geisiadau diogelwch ac amgylcheddol ar gyfer safle penodol, ochr yn ochr â'i gais am drwydded safle niwclear. Ar ôl sicrhau pob un o'r caniatadau hyn, gall Horizon symud ymlaen i adeiladu Wylfa Newydd.
- Heddiw cyhoeddodd y rheoleiddwyr: y Cadarnhad Derbyn Dyluniad; y Datganiad o Dderbynioldeb Dyluniad; Adroddiadau Asesu ar gyfer pob pwnc (GDA Cam 4); Adroddiad Asesiad Cryno'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a Dogfen Penderfyniad Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Maent hefyd wedi llwyddo i gyhoeddi pob Mater Rheoleiddiol ac Arsylwad Rheoleiddiol, gyda chynlluniau datrys a llythyrau cadarnhau yn www.onr.org.uk/new-reactors/uk-abwr/index.htm.
- Mae Hitachi-GE wedi cyhoeddi ei Adroddiad Diogelwch Generig Cyn-adeiladu (PCSR) a'i Drwydded Amgylcheddol Generig (GEP) yn www.hitachi-hgne-uk-abwr.co.uk/gda_library.html.

Gwybodaeth ychwanegol:

- I gael mwy o wybodaeth am yr Asesiad Dyluniad Generig, ewch i: www.onr.org.uk/new-reactors/uk-abwr/index.htm
<https://www.gov.uk/government/collections/assessing-new-nuclear-power-station-designs>
<https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/how-we-regulate-you/our-role-in-nuclear-regulation/?lang=en>
- I gael mwy o wybodaeth am gynlluniau Horizon Nuclear Power yn Wylfa Newydd ac Oldbury-on-Severn, ewch i: www.horizonnuclearpower.com
- I gael mwy o wybodaeth am Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU a'r Asesiad Dyluniad Generig, ewch i: <http://www.hitachi-hgne-uk-abwr.com/cym/index.html>

Horizon Nuclear Power:

Sefydlwyd Horizon Nuclear Power yn 2009 er mwyn datblygu gorsafoedd niwclear newydd yn y DU. Cafodd ei brynu gan Hitachi, Cyf. (TSE: 6501) o Japan ym mis

Tachwedd 2012. Mae'r cwmni yn datblygu cynlluniau i adeiladu o leiaf 5,400MW o bŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw. Bydd eu safleoedd niwclear yn cyflogi hyd at 850 o bobl pan fyddant yn weithredol gyda gweithluoedd adeiladu o hyd at 8,500. I gael mwy o wybodaeth am Horizon, ewch i www.horizonnuclearpower.com

Hitachi-GE Nuclear Energy, Cyf.:

Mae Hitachi-GE, menter a sefydlwyd ar y cyd gan Hitachi, Cyf. (TSE:6501) a GE ym mis Gorffennaf 2007, fel un o'r gweithgynhyrchwyr safleoedd mwyaf cynhwysfawr yn y byd, yn ymgymryd â gwaith datblygu, cynllunio, dylunio, gweithgynhyrchu, archwilio, gosod, cyn-gweithredu a chynnal offer sy'n gysylltiedig ag adweithyddion niwclear, a gall reoli prosiectau integredig. Mae Hitachi-GE wedi bod yn gysylltiedig â 23 o adweithyddion yn Japan hyd yma, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadeiladu yn awr. I gael mwy o wybodaeth am Hitachi-GE, ewch i <http://www.hitachi-hgne.co.jp/en/index.html>